# Pumed llawr adeilad Tŷ Hywel

1 Mawrth 2013

## Cais am Wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 6 Chwefror 2013, pan wnaethoch ofyn,

*Faint o arian y mae Comisiwn y Cynulliad wedi'i wario (hyd yma) yn ystod blynyddoedd ariannol 2010/11, 2011/12 a 2012/13 ar a) addurno, b) celfi swyddfa, c) cynnal a chadw ac uwchraddio pumed llawr adeilad Tŷ Hywel?*

Mae pumed llawr Tŷ Hywel yn cael ei isosod i Lywodraeth Cymru. Tra bod Comisiwn y Cynulliad yn gyfrifol am waith cynnal a chadw a gynllunir neu sydd ei angen ar frys ar gyfer yr adeilad cyfan, gan gynnwys yr adeiladwaith, yr offer, systemau a chyfarpar, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am drefnu ac ariannu unrhyw waith ailwampio neu uwchraddio mewnol sydd eu hangen ar ei swyddfeydd, gan gynnwys prynu celfi. O ganlyniad, ni fu unrhyw wariant gan Gomisiwn y Cynulliad ar a) addurno na b) celfi swyddfa ar gyfer pumed llawr Tŷ Hywel.

O ran gwariant ar gynnal a chadw a gwelliannau ar y pumed llawr, ni chofnodir costau cynnal a chadw lloriau unigol yn Nhŷ Hywel a bydd llawer o agweddau sy'n ymwneud â chynnal a chadw ar gyfer yr adeilad cyfan, er enghraifft, y gost o gynnal yr adeilad a systemau fel gwresogi, oeri, awyru, lifftiau, goleuo, pŵer ac yn y blaen.

Serch hynny, fel rhan o gynllun graddol i wella a newid y system oleuo swyddfa yn Nhŷ Hywel i system oleuo sy'n fwy cynaliadwy gan gynnwys goleuadau a reolir gan synhwyrydd sydd â lefelau golau cymwysadwy y gellir eu haddasu ac sy'n diffodd yn awtomatig pan fo'r swyddfa'n wag, gosododd Comisiwn y Cynulliad oleuadau PIR a reolir ar y pumed llawr ym mis Mawrth 2012 ar gost o £38,499.

Eitemau eraill o wariant a nodwyd ar gyfer y pumed llawr yw:

| **Blwyddyn ariannol** | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm costau | £3,877.50 | £1,386.50 | £2,144.05 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost / E-mail: Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm.. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**